**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jocelyn Davies AC
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

21 Gorffennaf 2015

Annwyl Jocelyn

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mehefin ynghylch eich gwaith craffu dilynol ar Gyllid Cymru a Banc Datblygu i Gymru.

Rwy'n ddiolchgar i chi am amlinellu eich safbwyntiau a rhannu'r materion y mae'r Pwyllgor wedi'u nodi. Rwy'n gwerthfawrogi eich pryderon ynghylch yr arbedion y gallai fod yn gysylltiedig â rheoli cronfeydd yn allanol ac y dylid cynnal dadansoddiad pellach o'r opsiynau cyllido. Rwyf hefyd yn nodi eich safbwynt ynghylch defnyddio sgiliau a gwybodaeth staff Cyllid Cymru er mwyn symud ymlaen â model y banc datblygu.

Ar 15 Gorffennaf, cyhoeddais lythyr i bob Aelod Cynulliad yn cydnabod y materion a godwyd gan eich Pwyllgor, y Pwyllgor Menter a Busnes a'r Panel Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol. Gan ystyried y cyngor hwn ac yn dilyn trafodaethau pellach gyda'r Athro Jones-Evans, eglurais y byddwn yn gwneud gwaith fesul cam drwy elfennau gwaith annibynnol ond perthnasol. Byddaf yn rhoi diweddariad pellach ym mis Medi.

Yn olaf, roedd eich llythyr yn cyfeirio at drefniadau craffu ar gyfer Cyllid Cymru ac unrhyw Fanc Datblygu yn y dyfodol. Derbyniais argymhellion y Pwyllgor Cyllid o ran gwell proses graffu ar gyfer Cyllid Cymru, yn arbennig mewn perthynas â chyhoeddi ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon a chyflwyno i un o Bwyllgorau'r Cynulliad bob blwyddyn. Ni welaf unrhyw reswm pan na fyddai'r trefniant hwn yn parhau ar gyfer unrhyw Fanc Datblygu yn y dyfodol.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk